# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 3ydd o Fedi 2025 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Huw James (Cadeirydd), Iori Saer, Dorian Lewis, Wyn Evans ac Elgan Williams ac Ross Gallie

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Sarah Pask & Christopher Smoothy & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2ail o Orffennaf 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd arwydd newydd i'r parc wedi cael ei archebu ac byddai'n cael ei gasglu yr wythnos nesaf.
Roedd y stordy newydd wdi cael ei leoli ar y cae chwarae.
Fe ddosbarthwyd canllaw Y Cyngor Sir ar Gyfrifoldebau Tirfeddianwyr parthed torri cloddiau.
Roedd Ross Gallie wedi mynychu ermwyn trafod dyfodol y Neuadd. Nododd Ross ame dim ond dau berson oedd ar pwyllgor y neuadd ac fod defnydd o'r neudd wwdi dirywio yn ddifrifol erss Covid. Nodwyd pwysigrwydd y neuadd ond byddai angen nifer o wirfoddolwyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymuno gyda'r pwyllgor ermwyn sicrhau ei ddyfodol. Cytunwyd mae y cam cyntaf oedd i'r pwyllgor hysbysu am aelodau newydd a hyrwyddo'r neuadd.Byddai'r pwyllgor yn adrodd yn ôl y mis Ionawr.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Roedd Dŵr Cymru wedi ysgrifennu yn nodi eu Cynllun Buddsoddi am 2025-2030.
**B** – Derbyniwyd ebost wrth Dŵr Cymru yn nodi ei bod yn cynnig nwyddau arbed dŵr. Byddai'r clerc yn trefnu ymweliad wrthynt.
**C** – Roedd Un Llais Cymru wedi ebostio rhestr cyrsiau hyfforddiant.
**CH** – Roedd Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun & Chwmfelinmynach ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ysgrifennu llythyr o ddiolch am y rhodd o £200.

**6: DERBYNIADAU:**
Llôg - £17.68
Wayleabe - £36.12
Praesept - £2000.00

**7: BILIAU:**
Charlie Jackson – 3 x £50.00 (2 wedi talu eisioes)
A & W Containers - £3360.00 (wedi talu)
Dŵr Cymru - £155.46 (talwyd d/u)
Costau Banc - £4.25 + £4.75
Arwyddion Eagle – arwydd Newydd - £78.00
David Harries – Belt i'r mower – £7.63 (talwyd gan Iori Saer – Ad-dalu Iori)
Awdurdodwyd i'r anfonebau cael eu talu drwy trosglwyddiad banc.

**8: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £2,056.21 |
| Cyfrif Trysorydd | £13,942.97 |
| **Cyfanswm o** | **£15,999.18** |

**9: CYNLLUNIO:** Dim

**10: Unrhyw fater arall:**
Roedd y Clerc wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y parc ac fe'i gymeradwywyd.
Roedd y clerc wedi derbyn tri amcan pris am archwiliad ac Asesiad Risg o'r Parc Chwarae.
Cytunwyd i ofyn Rezabond i wneud yr archwiliad.

Codwyd pryder am gwlfert dwfn agored ar y chwith I gyffordd o Blaenwaun i Gwmfelinmynach (cyn Blaenffynnon, SA34 0DG). Byddai'r clerc yn adrodd hyn i'r Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 5ed o Dachwedd 2025 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**